Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# CYNLLUN GWELLA'R GYLLIDEB

## DROS EIN AMGYLCHEDD, ECONOMI, CYMDEITHAS A DIWYLLIANT




CYMRU IFANC
YOUNG WALES

# Cynllun Gwella'r Gyllideb

Cynllun pum mlynedd Llywodraeth Cymru i wella penderfyniadau ynglyn â gwario arian yw Cynllun Gwella'r Gyllideb.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i'w helpu i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar yr amgylchedd, ar gymdeithas ac ar ddiwylliant. Deddf yw hon sy'n dweud bod rhaid i sefydliadau – fel awdurdodau lleol, byrddau iechyd a pharciau cenedlaethol – feddwl am effaith eu penderfyniadau yn y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a chyda'i gilydd ac atal yr un problemau rhag codi eto yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn defnyddio ei Rhaglen Lywodraethu, sy'n nodi'r pethau y byddant yn eu cyflawni dros y pum mlynedd nesaf mewn meysydd fel Addysg, Iechyd a'r Argyfwng Hinsawdd. Mae'r rhaglen yn nodi sut byddant yn sicrhau llesiant pobl Cymru. Maen nhw am wneud Cymru yn lle gwell i bawb fyw ynddo ac yn lle gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwrando ac yn siarad â phobl o bob oed ac o bob cefndir sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru. Maen nhw hefyd yn trafod ag arbenigwyr mewn gwledydd eraill, er mwyn cael gwybod rhagor am eu cynlluniau newydd. Maen nhw'n dysgu o brofiad yr arbenigwyr hynny ac yn gweld beth sy'n gweithio'n dda, a pham. Drwy feithrin perthynas fel hyn, maen nhw hefyd yn rhannu eu harferion da eu hunain a helpu eraill.

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar y ffordd maen nhw'n gwario arian. Maen nhw'n ystyried sut mae pethau wedi newid, yn ceisio sicrhau bod y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas – fel plant, pobl hŷn, a phobl sy'n dod o gefndir Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol arall – yn cael eu diogelu.

Mae'r daflen hon yn rhoi braslun o bynciau Cynllun Gwella'r Gyllideb.



# Dadansoddi Cyllidol ac Economaidd



Mae'r rhan hon o Gynllun Gwella'r Gyllideb yn ystyried sut mae pobl a busnesau yn gwneud arian ac yn ei wario, a sut mae Llywodraeth Cymru yn gwario'r arian y mae'n ei dderbyn o drethi. Arian y mae'n rhaid i bobl a busnesau ei dalu i'r llywodraeth yw trethi. Mae'r llywodraeth yn defnyddio'r arian y mae'n ei gael o drethi i dalu am bethau fel ysgolion ac ysbytai.

I'w helpu i wneud penderfyniadau, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio dadansoddwyr sy'n ymchwilio i lawer o ddata a thystiolaeth. Mae gwybodaeth a data yn cael eu tynnu o amrywiaeth o ffynonellau i sicrhau bod ganddynt ddarlun cywir, sy'n cyfleu'r sefyllfa ddiweddaraf yng Nghymru ac ar draws y byd. Mae hyn yn eu helpu i wneud yn siŵr eu bod yn gwario eu harian mewn ffordd fanteisiol a'u bod yn gallu gweld effaith eu penderfyniadau gwario. Drwy ddadansoddi, maen nhw'n gweld pa benderfyniadau sy'n cael yr effaith fwyaf neu leiaf. Pan fydd y dadansoddwyr wedi cwblhau eu gwaith, maen nhw'n cyflwyno adroddiadau i'r Gweinidogion. Bydd y Gweinidogion, yn eu tro, yn gwneud penderfyniadau gwario sy'n helpu'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Rôl economegydd yw edrych ar y ffordd y mae pobl yn creu cyfoeth, sut maen nhw'n ei ddefnyddio, a pham mae gwahanol lefelau o gyfoeth gan bobl. Mae Prif Economegydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad bob blwyddyn sy'n trafod sefyllfa ariannol Cymru. Mae adroddiad blynyddol y Prif Economegydd yn helpu i ddangos yr heriau sy'n wynebu Cymru yn ogystal â'r cyfleoedd sydd ar gael i wella economi Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru am wella ei dull o asesu effaith penderfyniadau gwario. Bob blwyddyn, maen nhw'n cyhoeddi Asesiad Effaith Integredig Strategol sy'n edrych ar effaith eu penderfyniadau gwario ar bobl Cymru.

Cyn penderfynu cymryd unrhyw gamau gweithredu, mae Llywodraeth Cymru yn meddwl yn gyntaf am effaith y camau hynny ar bobl ac ar yr amgylchedd. Mae'n dilyn dull integredig, sy'n golygu bod yr holl effeithiau yn cael eu hystyried ar y cyd i sicrhau bod pob grŵp yn cael ei drin yn gyfartal. Maen nhw'n ystyried yr effaith ar lawer o amrywiol bethau, gan gynnwys yr amgylchedd, hawliau plant, cydraddoldeb a'r Gymraeg. Mae deall yr amrywiol effeithiau yn eu helpu i wneud penderfyniadau gwell am sut i wario arian Llywodraeth Cymru.

# Cynllunio Seilwaith

Mae Llywodraeth Cymru yn annog penderfyniadau da ar gyfer seilwaith – sef pethau fel ffyrdd, adeiladau, a'r cyflenwad ynni. Pethau sydd eu hangen ar gymdeithas lwyddiannus ac iach yw'r rhain. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i sicrhau bod gennym ddigon o dai, lle chwarae, lle dysgu a gwaith. Mae'r Llywodraeth yn ceisio gwella'r dulliau sydd ar gael inni ar gyfer teithio o un lle i'r llall ac maen nhw'n gwneud yr hyn sy'n bosibl i daclo'r argyfwng hinsawdd a natur.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r holl seilwaith allu cael ei ddefnyddio am flynyddoedd lawer i ddod heb achosi problemau i bobl yn y dyfodol.

Wrth gyhoeddi'r Strategaeth Buddsoddi mewn Seilwaith yng Nghymru, sef cynllun deng mlynedd sy'n cynnwys sawl uchelgais, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i bobl Cymru am ei chynlluniau i gael seilwaith da. Mae'r Strategaeth yn helpu i gyflawni'r pethau yng Nghynllun Gwella'r Gyllideb.

Mae Llywodraeth Cymru am weld sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd wrth fuddsoddi arian. Er enghraifft, gall Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, sefydliadau cyhoeddus eraill a sefydliadau preifat weithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i gyfleoedd gwell ar gyfer gwario arian a chael y canlyniadau gorau posibl er mwyn pobl Cymru.





# Trethi Cymreig

Mae Llywodraeth Cymru yn cael ei hariannu'n rhannol drwy drethi datganoledig. Ystyr 'datganoledig' yw bod gan Lywodraeth Cymru y pŵer i wneud penderfyniadau mewn meysydd penodol fel trethi, addysg, iechyd ac ati, yn hytrach na bod Llywodraeth y DU yn gwneud y penderfyniadau hyn ar ein rhan.

Trethi datganoledig yw tua 20% o gyllideb Llywodraeth Cymru. Daw'r gweddill oddi wrth Lywodraeth y DU. Pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru a busnesau Cymru sy'n talu'r trethi. Mae'r trethi'n helpu i dalu am y pethau pwysig i gymdeithas weithio'n iawn - fel adeiladu ysgolion ac ysbytai newydd, talu am athrawon, nyrsys a meddygon ac adeiladu tai fforddiadwy newydd.




Mae Llywodraeth Cymru yn chwilio bob amser am ffyrdd o fanteisio i'r eithaf ar ei phwerau i godi trethi datganoledig. Yn ogystal â chodi arian i'w wario ar wasanaethau hanfodol, mae'r trethi hefyd yn bwysig i newid ymddygiad pobl. Er enghraifft, mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cynhyrchu incwm ond mae hefyd yn annog pobl i ailgylchu mwy er mwyn anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi.



# Crynodeb

Mae Cynllun Gwella'r Gyllideb yn rhoi manylion yr holl bynciau rydym wedi'u trafod yn y daflen hon ac mae'n ystyried sut gall Llywodraeth Cymru wella'r ffordd o wneud ein penderfyniadau gwario er mwyn creu Cymru gryfach, decach a gwyrddach i bawb.

Mae Trysorlys Cymru yn gweithio gyda phobl ifanc i rannu gwell dealltwriaeth o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu a sut maen nhw'n gwneud penderfyniadau. Isod, mae rhestr o ddolenni i amrywiol gyhoeddiadau a allai fod o ddiddordeb ichi.

Cynllun Gwella'r Gyllideb 2024-2025

Cyllideb Cymru 2023: Adroddiad y Prif Economegydd

Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2021

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Hawdd ei Ddeall) 2017

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Rhaglen Lywodraethu 2021-2026

Animeiddiad ar Gyllideb Cymru 2023

Cymru Ifanc

Animeiddiad ar Gynllun Gwella'r Gyllideb 2024

Os hoffech wybod mwy am y prosiect cydgynhyrchu yma, anfonwch e-bost i bgb.polisiachyflenwi@llyw.cymru a young.wales@childreninwales.org.uk

Hoffem ddiolch o galon i staff a gwirfoddolwyr ifanc Plant yng Nghymru am gydgynhyrchu'r ddogfen hon a'r animeiddiad gyda Llywodraeth Cymru.




OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG45820, ISBN digidol 978-1-83577-613-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg